

Rebecca Evans AC

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

11 Rhagfyr 2019

Annwyl Rebecca

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor) yn trafod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020 yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2019.

Yn ei **adroddiad** ar y Rheoliadau hyn, a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 10 Rhagfyr, nododd y Pwyllgor un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3, fel a ganlyn. Mae'r Rheoliadau'n cyfeirio at "erthygl 3... o Orchymyn Mewnfudo (Gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) (Ymadael â'r UE) 2019 a wnaed o dan adran 3A o [Deddf Mewnfudo 1971]" (pwyslais wedi'i ychwanegu). Gofynnwyd pam bod angen cyfeirio at y ffaith bod Gorchymyn 2019 wedi'i wneud o dan adran 3A o Ddeddf Mewnfudo 1971, a beth fyddai wedi bod yn wahanol pe bai'r Rheoliadau wedi cyfeirio yn syml at erthygl 3 o Orchymyn 2019, heb nodi'r pŵer a ddefnyddiwyd i wneud Gorchymyn 2019. Mae'r un pwynt yn codi mewn perthynas â'r rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971.

Nododd ymateb y Llywodraeth a gawsom, ac a drafodwyd gennym, yn ystod ein cyfarfod ar 9 Rhagfyr:

"Mae rheoliad 6 yn diwygio rheoliad 28 o Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (Personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr). Mae'r diwygiad yn mewnosod nifer o hawliau newydd i breswyllo a bennwyd ar gyfer gwladolion gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd mewn cysylltiad ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

✉ SeneddMCD@cynulliad.cymru

☎ 0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

✉ SeneddCLA@assembly.wales

☎ 0300 200 6565

UE. Gwneir yr un ddarpariaeth yn union yn rheoliad 15 sy'n diwygio paragraff 19 yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013.

Mae cynsail i'r dull drafftio a ddefnyddiwyd wrth gyfeirio at yr adran berthnasol yn Neddf Mewnfudo 1971. Gweler, er enghraifft, rheoliad 28(5)(e) o Reoliadau Gofynion Rhagnodedig 2013 a pharagraff 19(5)(e) o Reoliadau Cynllun Diofyn 2013. Mae hefyd yn gyson â darpariaeth ar gyfer Ymadael â'r UE a wneir mewn Rheoliadau eraill diweddar a wnaed gan Weinidogion Cymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad. Gweler, er enghraifft, rheoliad 2(3) o **Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) 2019** a rheoliad 2(3) o **Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019**. Mae'r ddwy set o Reoliadau yn cyfeirio at Atodiad EU i'r rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3 o Ddeddf 1971 ".

Er ein bod yn cydnabod bod ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi bod cynsail i'r dull drafftio a ddefnyddiwyd wrth gyfeirio at yr adran berthnasol yn Neddf Mewnfudo 1971, byddem yn croesawu eglurhad pellach gennych ar y pwynt penodol ynghylch pam (gan gymryd yr enghraifft gyntaf yn yr adroddiad) mae angen nodi'r pŵer galluogi yn y Ddeddf Mewnfudo wrth gyfeirio at erthygl 3 o Orchymyn 2019.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn dydd Iau 2 Ionawr 2020, fel y gall y Pwyllgor ei ystyried cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn a drefnwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn ar 7 Ionawr 2020.

Yn gywir



Mick Antoniw AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English

